CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MAI 17, 2016

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Brithdir**
**Nos Lun, Mai 17, 2016 am 7:00 o'r gloch.**

**Presennol** Cynghorwyr: Meurig Ashton, Mordaf Roberts, Peredur Jenkins, Gerallt Griffith, Barry Jones a Geraint Evans. Hefyd Henry M. Edwards.

**2. Ymddiheuriadau:** Rhun Prys Jones ac Emlyn Roberts.

**3. Dewis Swyddogion**

Cadeirydd: Llion Rh. Williams
Is Gadeirydd: Barry Jones

Cynrychiolwyr ar y canlynol:

Neuadd Bentref Brithdir: Rhun Prys Jones
Neuadd Bentref Llanfachreth: Gerallt Griffith
Neuadd Bentref Rhydymain: Emlyn Roberts
Neuadd Rhydygorlan: Meurig Ashton
Llywodraethwyr Ysgol Brithdir: Geraint R. Evans
Llywodraethwyr Ysgol Llanfachreth: Mordaf Roberts
Llywodraethwyr Ysgol Rhydymain:

Yn absenoldeb y Cadeirydd, cadeirwyd y cyfarfod gan Barry Jones.

**4. Datgan diddordeb.**

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

**5. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mawrth 15, 2016**

Cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

**6. Materion yn codi o'r cofnodion Mawrth 15, 2016**

Nid oedd materion yn codi.

**7. Gohebiaeth**

a. Anfonwyd copi o ddyddiau'r mae cyfarfodydd y Cyngor yn cyfarfod yn 2016/17 i Ysgrifenyddion y Neuaddau.

b. Llythyr (24/3/2016) (ateb i Eitem 10.a. Cofnodion Chwefror 16, 2016) oddi wrth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod:

i. bydd y ddwy goeden ger yr hen droad yn 'top Torrent' yn cael eu archwilio gan arbennigwyr a chawn wybod y canlyniad.

ii. bydd grid yn cael ei osod ger Doluwchchadda ar ffordd Goriwaelod, Llanfachreth yn y dyfodol agos.

iii. Bydd gwaith o lenwi tyllau ar ffordd rhwng Maes yr Eglwys Wen a Dolfrwynog, Hermon am gael ei wneud y flwyddyn hon. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyfrannu tuag at y gwaith.

c. Llythyr ((26/4/2016) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd cyfarfod nesaf Pwyllgor Ardal Meirionnydd a Chyfarfod Blynyddol y Pwyllgor yn Neuadd Pendre, Tywyn ar Mai 25 2016 am 7:00yh. Amgáu mae Cofnodion cyfarfod Blynyddol Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn Bala ar Mai 13, 2015, Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn Dolgellau ar Chwefror 24, 2016 a Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol yn Llanfair ym Muallt ar Mawrth 11, 2016.

ch. Llythyr (29/4/2016) oddi wrth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd gwaith ailadeiladu, cynnal a chadw wal gynnal ger Hywel Dda ar yr A494. Hefyd, bydd gwaith newid llusernau golau stryd i LED yn Llanfachreth.

d. Llythyr (15/02/2016) oddi wrth Un Llais Cymru. Maent angen dau gynghorydd i gynrychioli ni yng nghyfarfodydd chwarterol y Pwyllgor Ardal.

Y ddau yw'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd.

dd. Llythyr (Mai 2016) oddi wrth Cefnogaeth Gorfforaethol, Uned Gyfathrebu ac Ymgysylltu, Cyngor Gwynedd. Mae'r llythyr am gyfle i ni roi sylwadau ar Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru (2015) sydd eisiau gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru..... i greu Cymru yr ydym i gyd eisiau byw ynddi, nawr ac yn y dyfodol. I weithredu'r Ddeddf mae Gwynedd yn cael ei ranu i gymunedau is-sirol bydd yn dod o dan Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. O dan is-sirol Dolgellau mae Abermaw, Corris, Dinas Mawddwy, Dolgellau, Dyffryn Ardudwy a Llanbedr. Os mae sylwadau mae'r Cyngor Gwynedd eu hangen cyn Mehefin 1, 2016.

## 8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Ceisiadau cynllunio:

i. NP5/54/LB202E. Caniatad Adeilad Rhestredig am newidiadau mewnol yn cynnwys ffurfio agoriadau yn y wal barti i ffurfio un annedd gyda 2 Bryn Teg. 1 Bryn Teg, Llanfachreth.

ii. NP5/54/448. Cynllun trydan dŵr 80KW ynghyd ag offer ac adeilad cysylltiedig (ar safle cynllun segur). Nant Helygog, Brithdir.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

iii. NP5/54/289E. Dymchwel strwythurau segur presennol a codi gweithdy gegin newydd gyda ystafell arddangos. Yr Hen Hufenfa, Rhydymain.

Penderfynwyd cefnogi'r cais .

b. Deddf Cynllunio (Adeilad Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth), 1990. Rheoliadau Cynllunio ((Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth), 1990.

i. Cais cynllunio NP5/54/LB76C. Mae'r Awdurdod yn caniatáu Caniatâd Adeilad Rhestredig i ychwanegu cawod yn ystafell wely 1. Cae'r March, Llanfachreth.

c. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref, 1990. Gorchymyn (Trefn Datblygu Cyffredinol) Cynllunio Gwlad a Thref, 1995.

i. Cais cynllunio NP5/54/T258A. Mae'r Awdurdod yn gwrthod Trosi allandy i lety gwyliau a gosod tanc septig. Y Beudy, Dolgamedd Farm, Brithdir.

ch. Llythyr (29/3/2016). Mae cais NP5/54/449 i Osod colofn telathrebu12m o uchder gyda offer ategol ynghyd a chabanau offer ar ran cwmni EE Cyf. (yn lle 'r mast presennol) ar Dir Coed Rhos Lwyd, Rhydymain wedi cael ei dynnu'n ôl.

d. Llythyr (Mai 5, 2016). Ymgynghoriad Cyhoeddus. Mae Canllawiau Cynllunio Atadol Drafft wedi cael ei gyhoeddi ar Goleuo Ymwthiol (Llygredd Golau) Mae'r gwybodaeth ar gael yn swydfa'r Parc ac yn llyfrgelloedd cyhoeddus. Os mae ymatebion mae'r Parc ei angen cyn Mehefin 17, 2016.

## 9. Materion Ariannol

a. Llythyr (14/3/2016) oddi wrth Eisteddfod Gadeiriol Llanfachreth yn diolch am ein rhodd o £200.

b. Llythyr (19/3/2016) oddi wrth Llên y Llannau yn diolch am ein rhodd o £50.

c. Bil (7/3/2016) am £45 oddi wrth Mr John D. Robert, Archwiliwr Mewnol, at tal archwilio cyfrifon y Cyngor 2014-15.

Penderfynwyd talyu'r bil.

ch. Llythyr (17/3/2016) oddi wrth Mr John D. Roberts, Archwiliwr Mewnol, yn rhoi gwybod mae am archwilio'r Cyfrifon y Cyngor 2015-16 ar Mai 27, 2016.

d. Bil (14/3/2016) treth annomestig cenedlaethol ar gyfer 2016/17 tuag at Public Convenienmce Rhydymain oddi wrth Cyngor Gwynedd. Does dim tal am y cyfnod.

dd. Llythyr (23/3/2016) oddi wrth E.W. Owen a'i Chwmni yn rhoi:

i. Copi o P60 am y flwyddyn yn diweddu 05/04/2016).

ii. Bil am £180 am gwblhau PAYE am y flwyddyn yn gorffen 5 Ebrill 2016.

Penderfynwyd talu'r bil.

e. Llythyr (20//3/2016) oddi wrth Neuadd Bentref Llanfachreth yn diolch am ein rhodd o £500.

f. Llythyr (20/2/2016) oddi wrth Clwb Ffermwyr Ifanc Dolgellau yn diolch am ein rhodd o £200.

ff. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Mawrth, 2016: £1,135.66.

g. Balans yn y banc ar 29 Mawrth, 2016: £4,847.41.

h. Costau'r Clerc am Ebrill 1, 2014 - Mawrth 31, 2016:

i. Swm am: stampiau + papur + amlenni + inc: £209.79.

Penderfynwyd talu'r costau.

i. Llythyr (8/4/2016) a Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 oddi wrth BDO LLP (Archwiliwr Allanol). Angen cwblhau'r ffurflen erbyn Gorffennaf 11, 2016.

Mae'r ffurflen a gwybodaeth eraill sydd eu hangen wedi cael eu cwblhau. Mae angen i'r Cadeirydd a Swyddog Ariannol Cyfrifol arwyddo'r ffurflen.

Anfonwyd copi o Cyfrifon y Cyngor 2015/16 i'r aelodau.

j. Dogfennau (12 Ebrill 2016) polisi yswiriant y Cyngor oddi wrth AON am y cyfnod Mehefin 01, 2016 i Mehefin 01, 2017. Y tâl i'w adnewyddu yw £887.37. (Tal flwyddyn ddiwethaf oedd £900.54).

Penderfynwyd talu'r swm.

l. Derbyniwyd swm o £3,000.00 (Praesept) oddi wrth Cyngor Gwynedd (25/04/2016).

ll. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Ebrill, 2016: £1,135.73.

m. Balans yn y Banc ar Ebrill 29, 2016: £4,406.36.

n. Llythyr (Mai 5, 20126 oddi wrth Pennaeth Adran Rheoleiddio (Dros Dro), Cyngor Gwynedd. Maent yn rhoi gwybod am newid yn nhrefniant ad-daliad costau cynnal llwybrau cyhoeddus oherwydd toriadau mae'r Awdurdod yn ei wynebu dros y ddwy flynedd nesaf. Mae pob Cyngor Cymuned a Cyngor Tref yn wynebu toriadau yn yr ad-daliad ac yr uchafswm gallwn ni ei hawlio yn y cyfnod 2016/17 a cyn diwedd Mawrth 2017 yw £735.45, (y gost am glirio llwybrau yn 2015/16 oedd £980.00). Gall fwy o doriadau yn yr ad-daliad ddigwydd yn y cyfnod 2017/18 neu hwyrach bydd dim ad-daliad. Bydd Uned Cefn Gwlad a Mynediad yn cysylltu gyda'r Cynghorau yn ystod yr wythnosau nesaf i ddatblygu syniad yn rhoi cyfleodd ar gyfer gwirfoddolwyr sy'n dymuno cyfrann at gynnal y rhwydwaith llwybrau.

Penderfynwyd parhau torri'r llwybrau fel fel sydd wedi cael ei wneud yn y gorffennol.

**10. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins**

a. Mae Cyngor Gwynedd a Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dod i gytundeb i wella Ffordd Lefel trwy trwsio waliau a tarmacio'r ffordd.

b. Cynhalwyd tri cyfarfod gan Cymdeithas Llanfachreth ar dyfodol yr Ysgol a Ty'r Ysgol.

**11. Unrhyw fater arall**

Penderfynwyd rhoi gwybod i Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd mae angen llenwi twll sydd ar ochr y ffordd wrth Glasdir Uchaf, Llanfachreth. Mae'r twll ar ochr chwith o'r ffordd fel mae un yn dod o'r Precipice.

---